

Cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



Amcan y Cod hwn

- Amcan y Cod hwn yw disgrifio'r arfer orau wrth ddefnyddio maglau i ddal cadnoid (llwynogod). Mae wedi ei anelu at y rhai sy'n rheoli cadnoid yng nghefn gwlad Cymru. Rhestrir y gofynion cyfreithiol ar dudalen 6 a 7 o'r Cod hwn.



A oes wir angen defnyddio magl?

- Ystyriwch ddulliau lladd eraill a dulliau sydd ddim yn lladd i ddatrys eich problem cadnoid pob tro. **Peidiwch â defnyddio magl oni bai** bod y dulliau eraill yn anymarferol, yn rhy ddrud neu'n aneffeithiol.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi taflen gynghori ar yr opsiynau lladd a pheidio â lladd sydd ar gael i reoli cadnoid mewn ardaloedd gwledig. Taflen ar gael <http://llyw.cymru/rheolibywydgyyllt>.
- Cyn defnyddio magl i ddal cadno, meddyliwch a yw'r angen yn cyfiawnhau ei defnyddio, gan ystyried:
 1. Y perygl o ddal anifeiliaid eraill heblaw cadnoid.
 2. Lles pob anifail sy'n cael ei ddal.
 3. Ymarferoldeb defnyddio dulliau eraill.

Os oes gennych unrhyw amheuan, peidiwch â defnyddio magl.

Maglu Cadnoid

- Trwy gadw at y cyngor yn y Cod hwn, byddwch yn cydymffurfio â'r gyfraith ar les anifeiliaid ac yn osgoi dal anifeiliaid eraill.
- Rhestrir y gofynion cyfreithiol ar dudalen 6 a 7 o'r Cod hwn. Ond at ddibenion cyfreithiol, fe ddylech hefyd gyfeirio at ddarpariaethau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Ceirw 1991 a Deddf Lles Anifeiliaid 2006.
- Ni fwriedir i'r Cod hwn fod yn llyfryn hyfforddi. Dylai defnyddwyr fod yn gymwys i ddefnyddio maglau cyn eu defnyddio i ddal cadnoid. Felly, argymhellir yn gryf eich bod yn mynd am hyfforddiant. I gael mwy o wybodaeth am hyfforddiant i ddefnyddio maglau, cysylltwch naill ai â'r Ymddiriedolaeth Gêm a Chadwraeth Bywyd Gwyllt ar 01425 651013 e-bost info@gwct.org.uk, Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain ar 01244 573019 e-bost game.deer@basc.org.uk, neu Gymdeithas Genedlaethol y Ciperiaid ar 01833 660869 e-bost info@nationalgamekeepers.org.uk.

Gosod maglau

- **Mae ansawdd yn bwysicach na nifer:** bwriad unrhyw raglen maglu yw gosod nifer fach o faglau yn effeithiol yn hytrach na gosod nifer fawr yn ddi-feddwl. Mae defnyddioldeb magl yn dibynnu ar ba mor dda rydych wedi gosod y fagl.
- Peidiwch byth â gosod magl heb ganiatâd perchennog neu denant y tir.
- **Dal, nid lladd: Diben magl yw dal anifail yn unig.** Pwrpas magl yw i ddal y cadno heb achosi dioddefaint diangen iddo tan fod modd ei ladd yn ddi-boen. Mae saethu gyda dryll priodol yn cael ei ystyried yn ffordd ddi-boen o ladd cadno.
- Defnyddiwch fagl ddirwyn, sydd wedi'i diffinio at bwrpas y Cod hwn, fel dolen weiar sy'n llacio pan fydd y cadno'n rhoi'r gorau i tynnu.
- Yn ôl Llywodraeth Cymru, 'magl gloi' yw dolen weiar sydd ddim yn llacio pan fydd y cadno'n rhoi'r gorau i tynnu. Peidiwch **byth** â defnyddio magl gloi gan fod hyn yn anghyfreithlon.
- **Rhaid** cysylltu maglau wrth angor sy'n sownd yn y ddaear. Gofalwch nad yw'r weiar yn gallu mynd yn glymau am yr angor ac nad yw'n anafu'r anifail sy'n cael ei ddal. Peidiwch â defnyddio maglau llusgo.

- Peidiwch **byth** â gosod magl ar lwybr sy'n cael ei ddefnyddio gan anifeiliaid eraill fel moch daear, ceirw, dyfrgwn, da byw ac anifeiliaid dof, rhag iddyn nhw gael eu dal a'u hanafu gan y fagl.
- Mae'n hanfodol adnabod olion traed, llwybrau ac arwyddion yr anifail targed ac anifeiliaid eraill. Os nad ydych yn adnabod ôl traed, llwybrau ac arwyddion anifeiliaid eraill, **peidiwch â gosod magl**.

Peidiwch byth â gosod magl:

1. O dan neu wrth ffens neu rwystr arall fel coed ifanc, perthi (gwrych), waliau neu gatieau rhag i weiar y fagl fynd yn glymau amdano.
2. Lle gallai da byw gael eu dal.
3. Lle bydd anifeiliaid dof yn cael mynd am dro yn rheolaidd, ger llwybrau cyhoeddus neu dai.
4. Ar neu wrth frochfa moch daear neu ar y llwybrau sy'n rhedeg ohoni.
5. Ar bontbrennau neu goed sydd wedi cwmpo'n bont dros nant neu afon.
6. Lle gallai'r anifail a ddaliwyd hongian ohoni, mynd yn glymau ynddi neu gael ei fodd neu ei grogi ganddi.
7. Os rhagwelir tywydd sy'n debygol o wneud i'r anifail ddioddef neu'ch rhwystro rhag archwilio'r fagl bob dydd. Cofiwch ystyried tywydd twym yn ogystal ag oerfel/gwynt/glaw/eira ac ati.

- Defnyddiwch fagl sydd bob amser yn cydymffurfio â'r Cod, fel ag a ddisgrifir ac a ddangosir ar dudalen 8 a 9.
- Yn ôl y gyfraith, rhaid archwilio magl o leiaf unwaith bob dydd. Er hynny, mae'r Cod hwn yn eich cynghori i'w harchwilio ddwywaith y dydd. Gan fod y rhan fwyaf o anifeiliaid yn cael eu dal yn y nos, argymhellir eich bod yn archwilio'ch magl yn fuan wedi iddi wawrio. Dylech ei harchwilio eto yn ddiweddarach yn y dydd i wneud yn siŵr ei bod yn ei lle ar gyfer y nos ac i ddelio yn brydlon ag unrhyw beth sydd wedi'i ddal yn ystod y dydd.

- Rhaid ichi fod yn gymwys ac abl i ddelio heb greulondeb â chadnoid neu anifeiliaid eraill y gallech ddisgwyl eu dal.
- O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, chi sy'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr eich bod yn gofalu am les yr holl anifeiliaid sydd o dan eich rheolaeth (gan gynnwys y rheini sydd wedi'u dal mewn magl), yn unol ag arfer dda. Yn yr achos hwn, eich bod yn diogelu'r anifail rhag poen a dioddefaint. Os nad ydych yn siŵr o'ch ymrwymïadau cyfreithiol, **peidiwch â defnyddio magl.**

Bob tro, wrth archwilio magl, rhaid gwneud y canlynol:

1. Lladdwch y cadno'n gyflym ac yn ddi-boen. Ystyrir bod ei saethu gyda dryll priodol yn ffordd ddi-boen o ladd cadno.
2. Rhaid rhyddhau pob anifail arall yn syth, oni bai ei fod wedi'i anafu a bod yn rhaid ei ladd rhag iddo ddiodef. Pwysig: O dan Adran 14 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n drosedd gollwng yn rhydd neu eu gadael i ddianc rai anifeiliaid gwyllt estron, gan gynnwys y rheini sydd ar restr Rhan 1 Atodlen 9 Ddeddf 1981.



3. Cyn gynted ag y bo modd, gwaredwch bob carcass yn y ffordd briodol yn unol â gofynion y gyfraith.
4. Cadwch olwg am arwyddion newydd anifeiliaid heblaw cadnoid.
5. Archwiliwch gyflwr y fagl. Peidiwch byth â defnyddio magl sydd â thro neu rwd ynddi, sy'n dangos olion traul neu sydd wedi'i difrodi. Rhaid cael gwared ar y maglau hynny'n ddiogel.
6. Gofalwch fod eich magl wedi'i gosod a'i lleoli yn y man a fwriadwyd.
7. Datgysylltwch eich magl os ydych yn disgwyl tywydd drwg fydd yn creu problemau lles neu'n eich rhwystro rhag ei harchwilio bob dydd.

Gwaredwch â'r fagl os:

1. Ydy hi wedi'i difrodi mewn unrhyw ffordd, yn hen neu'n rhydlyd.
2. Oes arwyddion anifeiliaid heblaw cadnoid, gan gynnwys eu bod wedi'u dal.
3. Nad oes eu hangen mwyach.

Cadw Cofnod

Cofnodwch ble ydych yn gosod eich maglau, i'ch helpu i archwilio'ch maglau bob dydd. Gall hefyd helpu pobl eraill i archwilio'ch maglau ar eich rhan os na fedrwrch wneud eich hun.

Gofynion cyfreithiol

Ceir cyfyngiadau cyfreithiol ar ddefnyddio maglau i ddal cadnoid yng Nghymru, yn bennaf drwy Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Lles Anifeiliaid 2006 a Deddf Ceirw 1991.


Mae'r holl droseddau a nodir gan y ddeddfwriaeth hon yn ymwneud â'r person sy'n gosod y fagl. Mae'n drosedd hefyd achosi neu ganiatáu person arall i gyflawni troseddau trwy ddefnyddio magl a nodir gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

O beidio â chadw at y ddeddfwriaeth, gallech gael eich erlyn a'ch cosbi. Gallai'r cosbau gynnwys dirwy neu garchar neu'r ddau.

I grynhoi, y prif bwyntiau cyfreithiol yw:

1. Rhaid archwilio maglau sydd wedi'u gosod o leiaf unwaith bob dydd
2. **Mae'n anghyfreithlon** defnyddio 'magl gloi'.
3. **Mae'n drosedd** i rywun achosi dioddefaint diangen i anifail sydd o dan ei reolaeth (sy'n cynnwys anifeiliaid sydd wedi'u dal mewn magl a'r cyfrwng a ddefnyddir i'w lladd).
4. **Mae'n drosedd** achosi dioddefaint diangen i anifail domestig.
5. **Mae'n anghyfreithlon** gosod unrhyw drap neu fagl i achosi anaf corfforol i unrhyw garw sy'n dod i gysylltiad ag ef/hi.
6. **Mae'n anghyfreithlon** gosod trap neu fagl i achosi anaf corfforol i unrhyw anifail gwyllt sydd wedi'i gynnwys yn atodlen 6 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (sydd ar hyn o bryd yn cynnwys y mochyn daear, y ffwl bart, y dyfrgi, yr wiwer goch, y draenog a'r bele.
7. Os caiff anifail a warchodir o dan Atodlen 6 Deddf 1981 ei ddal yn anfwriadol a'i fod yn gorfod cael ei ladd rhag iddo ddiodef am ei fod wedi'i anafu'n dost, rhaid i'r person laddodd yr anifail hwnnw allu cyfiawnhau'i weithredoedd.
8. O dan adran 14 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n drosedd gollwng yn rhydd neu ganiatáu i ddianc i'r gwyllt unrhyw anifail na fyddai fel arfer yn bodoli ym Mhrydain fel anifail gwyllt neu sydd wedi'i gynnwys yn Rhan 1 Atodlen 9 y Ddeddf. Dylid lladd yr anifeiliaid hyn, sy'n cynnwys y wiwer lwyd a'r minc, yn gyflym ac yn ddi-boen.
9. Rhaid cael gwared ar garcasau mewn ffordd ddiogel fel nad ydynt yn niweidio iechyd pobl nac yn llygru'r amgylchedd.

Enghraifft o fagl sy'n cydymffurfio â chod Llywodraeth Cymru



Peidiwch â defnyddio magl sydd heb yr holl rannau isod.

- **WEIAR.** Rhaid i'r weiren allu dal o leiaf 208 kg (460 lbs) o bwysau heb dorri. Mae maglau cadnoid fel arfer wedi'u gwneud o gebl weiar 2mm. Gofalwch nad oes unrhyw ddifrod ar y weiar, na rhwd, tro nag olion traul.
- **ANGOR SEFYDLOG.** Gofalwch fod y fagl wedi'i hangori'n sownd wrth y ddaear fel na all anifail ddianc na'i llusgo i ffwrdd. Rhaid i'r angor fod yn ddigon cryf i allu rhwystro anifail cryfach na chadno rhag symud yr angor. Dylai top yr angor fod yn blwm â'r llawr rhag i'r fagl weindio'i hun o gwmpas yr angor. Peidiwch byth â defnyddio angorau llusg.

- **DAU SWIFL.** Mae'r swiflau'n caniatáu i'r weiran droi'n rhydd ar ei hyd a rhwystro llinynnau'r weiar rhag dadblethu neu dynhau'n rhy dynn. Mae'r weiran yn gwanhau wrth ddadlethu neu ordynhau gan ei gwneud yn haws i'r anifail ei thorri, gwneud difrod a dianc. Dylai fod yna swifl wrth yr angor ac un rhwng swifl yr angor a'r ddolen ddirwyn.
- **DOLEN DDIRWYN.** Rhaid i ddolen ddirwyn allu symud yn rhwydd i'r ddau gyfeiriad wrth osod y fagl a rhaid ei chadw yn y cyflwr hwnnw tra'ch bod yn ei defnyddio.
- **STOP.** Rhaid bod yna stop ar y fagl fel na all y cylch gau'n dynn. Ar faglau cadnoid, dylai fod 26cm o'r ddolen ddirwyn (gweler y llun ar dudalen 8).
- **MAN TORRI.** Wrth y ddolen ddirwyn, rhaid i'r fagl gynnwys 'man torri' sy'n torri pan fydd anifail cryfach na chadno'n cael ei ddal ac yn tynnu arno.



Manylion cyswilt defnyddiol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Rheoli Bywyd Gwyllt, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth, SY23 3UR

Ffôn: 0300 062 2006 ebost: bywyd_gwyllt@cymru.gsi.gov.uk



Ymddiriedolaeth Gêm a Chadwraeth Bywyd Gwyllt

Burgate Manor, Fordingbridge, Hampshire, SP6 1EF

Ffôn: 01425 652381 ebost: info@gwct.org.uk



Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain

Marford Mill, Rossett, Wrexham, LL12 0HL

Ffôn: 01244 573019 ebost: game.deer@basc.org.uk



Gymdeithas Genedlaethol y Ciperiaid

Blwch Post 246, Darlington, DL1 9FZ Ffôn: 01833 660869

ebost: info@nationalgamekeepers.org.uk



Cynghrair Cefn Gwlad

367 Kennington Road, Llundain, SE11 4PT

Ffôn: 07825 337978 ebost: rachel-evans@countryside-alliance.org



Undeb Amaethwyr Cymru

Llys Amaeth, Plas Gogerddan, Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3BT

Ffôn: 01970 820820 ebost: head.office@fuw.org.uk



NFU Cymru

Ty Amaeth, Maes y Sioe, Llanelwedd, Llanfair ym Mualt, LD2 3TU

Ffôn: 01982 554200 ebost: nfu.cymru@nfu.org.uk